



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Adolygiad o Ddyfroedd Ymdrochi Cymru 2016

Ymgynghoriad ar ddynodi Traeth Gwledig Aberdyfi,
Gwynedd yn ddŵr ymdrochi

Dyddiad cyhoeddi: 15 Ionawr 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 26 Chwefror 2016

Trosolwg

Amcan yr ymgynghoriad hwn yw gofyn i bobl am eu barn am ein cynigion i ddynodi Traeth Gwledig Aberdyfi (neu'r 'Cemetery Beach' (Traeth y Fynwent) fel y'i gelwir yn lleol) yn ddŵr ymdrochi o dan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi (2006/7/EC).

Amcan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi yw diogelu iechyd pobl trwy ei gwneud yn ofyn i wledydd yr Undeb Ewropeaidd restru dyfroedd ymdrochi poblogaidd, monitro ansawdd eu dŵr a hysbysu ymdrochwyr am ansawdd y dŵr ar y safleoedd dynodedig hyn. Yng Nghymru, mae'r tymor ymdrochi'n para rhwng 15 Mai a 30 Medi.

Un o ofynion y Gyfarwyddeb yw bod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r rhestr o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru bob blwyddyn.

Sut i ymateb

Cyflwynwch eich sylwadau erbyn 26 Chwefror 2016, gan ddefnyddio unrhyw rai o'r cyfryngau isod:

E-bost: water@wales.gsi.gov.uk

Post:

Y Gangen Ddŵr
Ymgynghoriad ar Ddyfroedd Ymdrochi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3 NQ

Os oes gennych ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, e-bostiwch water@wales.gsi.gov.uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Fe welwch wybodaeth am ddynodi dyfroedd ymdrochi ar wefan Llywodraeth Cymru isod: [Dynodi dyfroedd ymdrochi newydd](#)

Manylion Cysylltu

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni ar:

E-bost: water@wales.gsi.gov.uk

Y Gangen Ddŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 5509

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Pwrrpas Ymgynghori	1
Cais i ddynodi	2
Cais i ddynodi	2
Ymateb i'r ymgynghoriad	4
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad	5

Pwrrpas Ymgynghori

Amcan yr ymgynghoriad hwn yw gofyn i bobl am eu barn am ein cynigion i ddynodi Traeth Gwledig Aberdyfi (neu'r 'Cemetery Beach' (Traeth y Fynwent) fel y'i gelwir yn lleol) yn ddŵr ymdrochi o dan y Gyfarwydddeb Dyfroedd Ymdrochi (2006/7/EC).

Mae'r Gyfarwydddeb Dyfroedd Ymdrochi, sy'n cael ei rhoi ar waith gan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, yn ei gwneud yn ofyn inni restru'r holl fannau ymdrochi poblogaidd yng Nghymru bob blwyddyn. Nod y Gyfarwydddeb yw diogelu iechyd ymdrochwyr rhag llygredd carthion trwy fonitro presenoldeb enterococci'r coluddion ac E.colli.

Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae gennym 102 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n profi ansawdd y dyfroedd ymdrochi dynodedig yn ystod y tymor ymdrochi, sef 15 Mai – 30 Medi yng Nghymru.

Er mai prif amcan y Gyfarwydddeb yw diogelu iechyd pobl, mae'n rhoi llawer o bwyslais hefyd ar hysbysu'r cyhoedd er mwyn iddyn nhw allu gwneud penderfyniadau doeth ynghylch ble i ymdrochi.

Ers 2015, mae'r ffordd rydym yn disgrifio ansawdd dyfroedd ymdrochi wedi newid. Mae pob gwlad yn yr UE wedi mabwysiadu system newydd sy'n defnyddio targedau ansawdd dŵr llawer llymach. Nod y categorïau newydd yw gwella'r holl ddyfroedd ymdrochi hyd yn oed ymhellach. Y categorïau newydd yw:

- rhagorol
- da
- digonol
- gwael

Yn 2015, llwyddodd pob un o'r 102 o ddyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru fodloni'r system Ewropeaidd lymach ar gyfer mesur ansawdd dŵr ymdrochi:

- 82 yn rhagorol, y safon Ewropeaidd uchaf
- 16 yn dda
- 4 yn ddigonol

Nid oedd gennym yr un dŵr ymdrochi 'gwael' yng Nghymru.

O 2016, rhaid dangos arwyddion safonol yn ystod y tymor ymdrochi wrth yr holl ddyfroedd ymdrochi dynodedig i ddangos ansawdd y dŵr. Fe welwch ddolen isod at wefan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch yr arwyddion hyn: <http://ec.europa.eu/environment/water/water-bathing/signs.htm>

Cais i ddynodi Traeth Gwledig Aberdyfi

Mae cais wedi dod i law oddi wrth Gyngor Gwynedd i ddynodi Traeth Gwledig Aberdyfi (cyfeirnod grid SH 590 968) yn ddŵr ymdrochi o dan y Gyfarwydddeb Dyfroedd Ymdrochi (2006/7/EC) ar gyfer tymor ymdrochi 2016.

Tystiolaeth a gwybodaeth a ddarparwyd ar gyfer dynodi dŵr ymdrochi

Yr enw lleol ar Draeth Gwledig Aberdyfi yw 'Cemetery Beach' (Traeth y Fynwent). Saif ar arfordir y gorllewin, tua hanner milltir i'r gogledd o geg Aber Dyfi. Mae cwrs golff Aberdyfi yn cefnu ar ran ddeheuol y traeth. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn dirwyn o harbwr Aberdyfi trwy'r traeth ar ei hyd i Dywyn yn y gogledd. Mae Traeth Gwledig Aberdyfi'n boblogaidd iawn ymhlith teuluoedd, yn enwedig teuluoedd â phlant bach.

Saif Aberdyfi bedair milltir i'r de o Dywyn ac un filltir ar ddeg i'r gorllewin o Fachynlleth. Mae sawl gwasanaeth bws yn gwasanaethu'r A493 ac mae Aberdyfi ar lein Rheilffordd y Cambrian gyda dwy orsaf, y naill wrth Glwb Golff Aberdyfi a'r llall ym Mhenhelyg yn y pen dwyreiniol.

Mae'r cyhoedd yn cael mynd at y traeth ar hyd llwybr cyhoeddus a llwybr pren/ramp yn syth i'r traeth o faes parcio cyhoeddus. Mae'r traeth yn agored i bobl waeth beth yw cyflwr y llanw, er bod llawer llai o le pan fo'r llanw'n uchel. Ni chaniateir mynediad at y traeth mewn cerbydau. Dim ond cerbydau Cyngor Gwynedd a'r Gwasanaethau Argyfwng sy'n cael mynd ar y blaendraeth.

Mae gan Wasanaeth y Parciau Gwledig a'r Môr gysylltiadau cryf â'r gymuned yn Aberdyfi ac mae'n cwrdd ac yn ymgynghori'n rheolaidd â'r aelod lleol, y Cyngor Cymuned, RNLI, busnesau lleol a rhanddeiliaid eraill ynghylch rheoli traethau a harbwr Aberdyfi.

Gan fod hwn yn gais newydd am ddynodiad, nid oes ceisiadau am 'wobrau traethau' wedi'u cyflwyno. Oherwydd yr amrywiaeth o gynefinoedd yn yr ardal, mae Cyngor Gwynedd a'i bartneriaid wedi paratoi Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (Natur Gwynedd). Mae aber Ddyfi wedi'i dynodi'n Ardal Gwarchodaeth Arbennig ac oherwydd pwysigrwydd y cynefinoedd a'r rhywogaethau morol, mae ardal Llŷn a Sarnau wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig.

Gan ei fod yn 'draeth gwledig', prin yw'r cyfleusterau a'r amwynderau ond maent i'w cael ar brif draeth a harbwr Aberdyfi. Darperir arwyddion gwybodaeth a diogelwch cyhoeddus dwyieithog. Gan fod y tywod yn feddal, nid yw'n bosibl gosod biniau ar y traeth. Mae biniau ar gael gerllaw a chyferbyn, gan gynnwys ar Draeth Aberdyfi ac yn y maes parcio cyhoeddus. Mae staff harbwr a thraethau Cyngor Gwynedd fel rhan o'u dyletswyddau, yn casglu sbwriel a gwastraff oddi ar y traeth. Nid oes ardal gwahardd cŵn ar y traeth.

Arolwg o Ddefnyddwyr y Traeth

Mae Cyngor Gwynedd wedi cynnal arolwg o nifer ymdrochwyr a defnyddwyr y traeth ar gyfer y cyfnod 27 Mehefin i 5 Medi 2015. Mae'r ffigurau'n cynnwys gwyliau'r banc a'r penwythnosau.

Dyddiad	Nifer y bobl ar y traeth	Nifer y bobl yn y dŵr (ymdrochi/padlo)
27/06/2015	36	9
30/06/2015	27	6
03/07/2015	23	8
04/07/2015	41	15
09/07/2015	23	3
15/07/2015	43	16
18/07/2015	62	24
19/07/2015	50+	21
23/07/2015	50+	26
25/07/2015	100+	43
29/07/2015	50+	16
30/07/2015	100+	29
02/08/2015	100+	33
06/08/2015	50+	21
07/08/2015	100+	37
08/08//2015	200+	50+
11/08/2015	50+	21
12/08/2015	200+	50+
17/08/2015	50+	21
18/08/2015	100+	35+
24/08/2015	100+	27
27/08/2015	60+	24
29/08/2015	150+	41
30/08/2015	150+	56
05/09/2015	34	5
Cyfanswm	1,949+	637+

Mae Llywodraeth Cymru'n fwy na pharod cefnogi'r cynnig i ddynodi Traeth Gwledig Aberdyfi ar gyfer tymor ymdrochi 2016 ar sail y dystiolaeth a'r wybodaeth a gafwyd gan Gyngor Gwynedd.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Rydym yn awyddus i glywed eich barn am y cynnig y ddynodi Traeth Gwledig Aberdyfi'n ddŵr ymdrochi.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'r ymatebion fydd wedi dod i law ac yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac ymateb gan y Llywodraeth.

Cyfnod Ymgynghori

Bydd y cyfnod ymgynghori'n para am 6 wythnos, o 15 Ionawr tan 26 Chwefror 2016.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad/Mudiad (os yn gymwys):

E-bost /rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn: Byddem yn croesawu'ch sylwadau ynghylch a ddylai Traeth Gwledig Aberdyfi gael ei ddynodi a'i ychwanegu at y rhestr o ddyfroedd ymdrochi o dan y Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi (2006/7/EC)

Rydym wedi gofyn un cwestiwn penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

☐